

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 13 CHWEFROR 2019

12:00 – 13:30, YSTAFELL GYNADLEDDA D, Tŷ HYWEL, CYNULLIAD CYMRU

YN BRESENNOL: Suzy Davies AC, Jenny Rathbone AC, cynrychiolydd Helen Parfitt, cynrychiolydd Helen Mary Jones AC, Fiona Openshaw, cynrychiolydd Joyce Watson AC

YN BRESENNOL: Rachael Clarke (BPAS) Kate Bayliss (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan), Lesley Blower (ARC), Rosemary Cutmore (BPAS), Amanda Davies (ABMU), Bronwen Davies (ARC), Madhusree Ghosh (Hywel Dda), Jackie Jones (Cynulliad Menywod Cymru), Vivienne Rose (BPAS), Alison Scouller (ARC), Helen O'Sullivan (ARC), Chris Newman (ARC), Helen West (Swyddfa Julie Morgan AC), Rachel Arkell (BPAS), Zoe Bateman (Swyddfa Jenny Rathbone AC),

1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

Agorodd Jenny Rathbone (JR) y cyfarfod a chyflwynodd y rhai oedd yn bresennol eu hunain.

2. CYFANSODDIAD FFURFIOL Y GRŴP AC ETHOL CADEIRYDD AC YSGRIFENNYDD

Dim ond dwy blaid wleidyddol oedd yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y grŵp ac felly nid oedd wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol. Nid oedd Julie Morgan AC yn gallu parhau i gadeirio'r grŵp yn sgil ei phenodiad i'r llywodraeth.

Roedd yr ail gyfarfod hwn wedi cadarnhau aelodaeth gan Lafur, y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru.
Sefydlwyd cyfansoddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Menywod yn ffurfiol.

Cynigiodd Suzy Davies AC Jenny Rathbone AC i fod yn Gadeirydd, a chafodd hynny ei eilio gan Helen Parfitt ar ran Helen Mary Jones. **Cafodd Jenny Rathbone AC ei hethol yn Gadeirydd y Grŵp.**

Cadarnhaodd Rachael Clarke fod BPAS yn hapus i ddarparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp.
Penodwyd BPAS i fod yn Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp.

3. COFNODION A MATERION YN CODI

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2018 yn gywir ar yr amod ar y cywiriadau isod.

- Cywiro sillafu enw Alison Scouller
- Roedd Kate Bayliss yn bresennol o ABUHB ac nid o ABMU
- Cywiro 'Cardiff Abortion Rights' i 'Abortion Rights Cardiff' yn Saesneg

4. ADRODDIAD – ADOLYGIAD GWASANAETH CENEDLAETHOL O ERTHYLIADAU YNG NGHYMRU

Cyflwynodd Rachael Clarke (RC) yr adroddiad. Gwnaed yr ymarfer mapio y cytunwyd arno yn y cyfarfod blaenorol gan gwestiynau a atebwyd gan arweinwyr erthyliad lleol ac ymarfer 'cwsmer cudd' dilynol.

Cyflwynodd Rachael Arkell (RA) yr adroddiad, gan amlygu'r amrywiad ar gyfyngiadau a mathau (Erthyliad Meddygol Cynnar, llawfeddygaeth, meddygaeth hwyr) o driniaeth yn ôl safle; materion a godwyd ynghylch cael dau lofnod fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Erthylu 1967; rhwystrau i hunangyfeirio mewn rhai ardaloedd, ac amseroedd aros.

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y cwestiynau i'w hystyried yn yr adroddiad.

Sut ydym ni'n sicrhau y gall pob merch gael gafael ar wybodaeth gywir a diweddar ar gael mynediad i ofal?

Cytunodd Rosemary Cutmore i godi'r mater o wybodaeth gywir ar gyfer hunangyfeirio BPAS ar wefannau'r GIG gyda Phowys a Betsi Cadwaladr mewn cyfarfodydd ar y gweill.

Tynnodd RA sylw at faterion gyda hunangyfeirio Caerdydd – roedd y rhif ffôn yn mynd at neges wedi'i recordio'n barod ac nid oedd y rhif archebu wedi'i gyhoeddi unrhyw le ar-lein, sy'n golygu bod rhaid i fenywod ymweld â'u meddyg teulu er mwyn ei gael.

Camau i'w cymryd: **JR i ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro yn gofyn pam nad yw'r rhif archebu ar gael i'r cyhoedd.**

Os nad oedd y dulliau hyn yn llwyddiannus wrth ddiweddarau'r wybodaeth ar Galw Iechyd Cymru, byddai angen eu cyfeirio at y **Gweinidog Iechyd**.

i. A yw hunangyfeirio yn ddymunol a sut beth fyddai gwasanaeth hunangyfeirio?

Dywedodd RA mai dim ond Cwm Taf oedd heb unrhyw wasanaeth hunangyfeirio, ond ei fod wedi gweithredu gyda rhywfaint o lwyddiant mewn mannau eraill.

Cytunwyd bod angen hunangyfeirio er mwyn sicrhau y gallai menywod gael mynediad at wasanaethau mewn modd amserol a chyfrinachol.

Dywedodd Kate Bayliss fod ABUHB yn rhedeg system hunangyfeirio ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol llwyddiannus ac y dylai fod yn bosibl i fyrddau iechyd eraill.

Dywedodd Rosemary Cutmore fod comisiynu yn cael ei wneud yn ôl cyfnod beichiogrwydd ac nid dull, felly nid yw menywod yn y rhan fwyaf o Gymru yn gallu cael mynediad at weithdrefnau llawfeddygol ail dymor beichiogrwydd a ariennir gan y GIG.

Daeth y grŵp i'r casgliad na fyddai llinell archebu genedlaethol yn darparu gwasanaeth priodol i'w anelu ato ar hyn o bryd.

Camau i'w cymryd: JR i ofyn i Dawn Bowden AC godi'r mater hunangyfeirio gyda BILI Cwm Taf.

ii. A allwn ni ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer cael llofnodion ar gyfer ffurflenni HSA1, gan leihau'r effaith ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac ar fenywod a allai orfod mynd i apwyntiad arall?

Dywedodd cynrychiolwyr o nifer o fyrddau iechyd fod yna broblemau gyda chael ail lofnod mewn clinig. Dywedodd ABUHB y gallai fod oedi mewn clinigau tra'n aros am ail lofnod, a system lle cânt eu gorfodi i 'erfyn' ar feddygon mewn clinigau eraill i lofnodi'r ffurflen.

Dywedodd Suzy Davies AC y dylid dileu'r gofyniad am ddau lofnod - er nododd mai Senedd y DU oedd yn gyfrifol am hyn ac nad oedd wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cymru.

Cytunwyd i gynnwys y pryder hwn a'r angen am gael datrysiaid posibl fel system ganolog i helpu BILlau i gael llofnodion mewn llythyr at y Gweinidog Iechyd.

Dywedodd Jackie Jones y byddai'n mynd i'r fforwm CEDAW ac y byddai'n nodi pryderon ynghylch y gofyniad i gael dau lofnod meddyg er mwyn cael erthyliad.

iii. Sut y gallwn ni wneud gwasanaethau erthyly yn hygyrch (yn ddaearyddol) i fenywod, yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus?

Dywedodd Amanda Davies y bydd yr Adolygiad Iechyd Rhyw sydd ar y gweill yn pwysleisio ei bod hi'n bwysig i fenywod yn cael eu trin yn 'lleol' – gan y bwrdd iechyd y maent yn byw ynddo.

Trafododd y grŵp y mater o wasanaethau ar gael yn fwy lleol yn ddaearyddol i rai menywod mewn bwrdd iechyd arall – e.e. Mae menyw sy'n byw yn Aberdyfi (Betsi Cadwaladr) yn byw'n llawer agosach i Aberystwyth (Hywel Dda) na'i chlinig dynodedig yn Llandudno.

Gwirfoddolodd Suzy Davies i gysylltu â meddygon teulu lleol yn Nyffryn Dyfi i weld a yw gwaith trawsffiniol yn gweithredu gyda byrddau iechyd eraill i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch. Gwirfoddolodd Helen Parfitt a Fiona Openshaw hefyd i weithio ar y cwestiwn hwn.

iv. Beth yw'r manteision o weithio gyda BILlau eraill ac a ellir datblygu'r math hwn o weithio?

Dywedodd Amanda Davies y gall gweithio trawsffiniol weithio yn erbyn buddiannau'r claf drwy eu gorfodi i deithio ymhellach i gael triniaeth.

Mynegwyd pryderon y byddai BILlau yn amharod i ariannu triniaethau mewn byrddau eraill tra'n darparu gwasanaeth lleol hefyd.

Cytunwyd i godi'r pwynt hwn gyda'r Gweinidog Iechyd, gan gynnwys a ellid caniatáu i fenywod deithio i BILl arall os nad oedd ei bwrdd yn darparu'r math o driniaeth y byddai'n well ganddi ei chael (e.e. llawfeddygaeth yn hytrach na meddygol hwyr).

v. Beth yw'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau i fenywod sydd ag anghenion cymhleth?

Mynegodd Amanda Davies bryderon bod diffyg darpariaeth leol yn annerbyniol gan fod gan bob Bwrdd Iechyd Lleol ward gynaeoleg a allai ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Dywedwyd bod menywod ag anghenion cymhleth yn aml yn dod ymlaen yn ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd ac efallai nad oes gan BILlau y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau TOP i'r merched hyn.

Cytunwyd i gynnwys y mater hwn a'r angen am gyllid a/neu ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer y merched hyn mewn llythyr at y Gweinidog Iechyd.

Cytunodd RC i ddrafftio llythyr at y Gweinidog Iechyd er mwyn i JR ac ACau eraill gytuno.

Mynegwyd pryder ynghylch amseroedd aros a **chytunwyd y dylid diwygio'r adroddiad** i gynnwys targedau RCOG o gyfnod aros 5 diwrnod ar gyfer ymgyngori a 5 diwrnod o aros am driniaeth.

Cytunwyd y dylid ailadrodd yr ymarfer 'cwsmer cudd' ar erthyliad yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac y dylid gwneud gwaith pellach i wneud gwaith wedi'i dargedu at BILlau i wella'r materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Roedd cynigion ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn cynnwys endometriosis, mynediad at ddulliau atgenghedlu ac yn benodol LARC, profion STI, FGM. **Gofynnwyd i'r aelodau gynnig syniadau pellach i RC.**